**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | V M Evans | J A Hale |
| C A Holley | Y V Jardine | S M Jones |
| J W Jones | E T Kirchner | G J Tanner |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| T Beddow | Katrina Guntrip |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Deborah Reed | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams a/ac P K Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgeliadau o gysylltiadau - Chris Holley a Mark Child.

2 **Nodiadau cyfarfod 25 Medi 2018**

Cytunodd y panel fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018.

3 **Cwestiynau'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

4 **Cyflwyniad ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Darparodd Alex Williams, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion y diweddaraf am Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac atebodd gwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Daeth trefniadau newydd ar gyfer diogelu rhag colli rhyddid i rym ym mis Gorffennaf 2018.
- Bellach mae tîm ymroddedig sy'n costio £250,000 y flwyddyn. Derbyniodd y cyngor oddeutu £20,000 yn unig gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau hyn eleni.
- Gellir cynnal asesiadau o alluedd meddyliol, mewn theori, gan weithwyr cymdeithasol/meddygon/nyrsys cymwys. Yn Abertawe, ar y cyfan, dim ond gweithwyr cymdeithasol a meddygon sy'n cynnal yr asesiadau.
- Mae deddfwriaeth ar Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn berthnasol i ofal preswyl, a dyma'r achosion y mae'r tîm penodedig o fewn y cyngor yn ymdrin â hwy. Mae rhan arall o'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i bobl sy'n byw yn y gymuned. Blaenoriaethir yr achosion hyn ar hyn o bryd yn ôl risg ac ymdrinnir â hwy gan y timau unigol.
- Y teimlad yw y dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd ganolbwyntio'n benodol ar yr achosion mwyaf cymhleth lle mae amheuaeth mewn perthynas â gallu, yn hytrach na'r rheiny lle nad oes gallu mewn lleoliad gofal preswyl.

Camau Gweithredu:

- Cylchredeg cyflwyniad i aelodau'r panel er gwybodaeth.

5 **Y diweddaraf am sut mae ymrwymiadau polisi'r cyngor yn cael eu rhoi ar waith yn y Gwasanaethau i Oedolion**

Roedd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda, yn bresennol i roi crynodeb i'r panel am y cynnydd a wnaed o ran ymrwymiadau polisi'r cyngor mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion.

Hysbyswyd y panel na fydd diweddariad swyddogol ar gael nes ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Cytunodd y Panel i ohirio'r eitem hon nes bod y diweddariad swyddogol ar gael.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu'r eitem 'Y diweddaraf am sut mae ymrwymiadau polisi'r cyngor yn cael eu rhoi ar waith yn y Gwasanaethau i Oedolion" at y Rhaglen Waith ar gyfer y cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018.

6 **Amserlen Rhaglen Waith 2018/19**

Ystyriodd y panel y rhaglen waith.

Rhoddwyd gwybod i'r panel y bydd Alex Williams yn dechrau absenoldeb mamolaeth yn fuan. Roedd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion a benodwyd yn ddiweddar, Deborah Reed, yn bresennol yn y cyfarfod. Croesawodd y panel Deborah Reed a dymunwyd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

## 7 Llythyrau

Llythyrau a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm.